# Iechyd Galwedigaethol a Brechiadau i Fyfyrwyr

INNOVATE HEALTHCARE

Innovate Healthcare ydym ni, rydym yn ddarparwr iechyd galwedigaethol i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd. Dewch i'n hadnabod wrth i chi astudio yn y brifysgol, ond os hoffech ddysgu mwy amdanom nawr ewch i'n gwefan, a'n tudalen Cwestiynau Cyffredin i fyfyrwyr: https://innovateoh.co.uk/studenthub/

**Pryd fyddwch chi'n clywed gennym?**

- Cyn i chi ddechrau fel myfyriwr yn y brifysgol, byddwn yn anfon dolen atoch i **Holiadur Sgrinio Myfyrwyr**.
- Cwblhewch hyn cyn gynted â phosibl a byddwch yn onest wrth ymateb – rydym yma i'ch helpu chi!
- Bydd ein tîm clinigol yn adolygu eich ymatebion.
  - Mae'n bosib y bydd angen iddyn nhw eich ffonio, cofiwch hyn.
- Os oes angen asesiad gan Feddyg Iechyd Galwedigaethol, byddwn yn trefnu hyn i chi.
  - Mae'r adroddiad ar ôl yr asesiad yn manylu ar yr hyn a drafodwyd yn ystod yr asesiad.
  - Bydd hyn yn eich helpu chi a'r brifysgol i ystyried unrhyw argymhellion/addasiadau a awgrymir gan y Meddyg i'ch helpu i fod yn llwyddiannus yn eich cwrs.

Os yn berthnasol, bydd unrhyw addasiadau a argymhellir yn amodol ar ymgynghoriad a chytundeb ar yr hyn sy'n rhesymol ymarferol i'r brifysgol.

## Brechiadau gydag Innovate

- Mae angen brechiadau ar bob Myfyriwr Clinigol i fynychu lleoliadau er mwyn eich amddiffyn chi a'ch cleifion.
- Mae Innovate yn darparu clinigau ar y safle yn y brifysgol.
- Gall brechiadau Iechyd Galwedigaethol gynnwys:
  - MMR
  - Hepatitis B
  - BCG (Mantoux)
  - Varicella Zoster
  - Influenza
  - Hepatitis A (myfyrwyr BSc Gwyddor Gofal Iechyd yn unig, ar hyn o bryd)
- **Ni** fydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr wedi cwblhau'r holl frechiadau sy'n ofynnol.
- Mae presenoldeb mewn apwyntiadau a drefnir yn **orfodol** – rhowch fwy na 24 awr o rybudd i newid dyddiad/amser apwyntiad.
- Mae cychwyn apwyntiadau yn brydlon yn osgoi unrhyw effaith ar eich presenoldeb yn y lleoliad.
- Os ydych wedi cael brechiadau, mae angen tystiolaeth o'r rhain arnom er mwyn i ni allu cadarnhau hyn. Gallwch anfon tystiolaeth gyda'ch holiadur sgrinio.

**Beth i'w wneud os oes gennych ffobia nodwyddau?**

- Rhowch wybod drwy e-bostio studentvaccinations@innovatehmg.co.uk ar unwaith.
- Gallwn ddyrannu mwy o amser a rhoi rhywfaint o sicrwydd er mwyn eich cefnogi.
- Os oes angen, gallwn eich cefnogi drwy ddod â ffrind/aelod o'r teulu os bydd hyn o gymorth.

**Unrhyw gwestiynau?**

Cysylltwch â ni os hoffech drafod yn ymhellach neu'n unigol drwy e-bostio studentvaccinations@innovatehmg.co.uk